

# Dod â data'n fyw

## Archwilio datblygiad symbolau tywydd

**1** Defnyddiwch fideo'r BBC (sydd ar gael **yma**) i ddangos ystod o symbolau tywydd gwahanol a sut maen nhw wedi datblygu dros y blynyddoedd i'r dosbarth.

**2** Nesaf, edrychwch ar y symbolau sydd i'w gweld ar y sleid symbolau tywydd a ddefnyddir i ddelweddu data. Esboniwch fod y symbolau yma'n rhoi trosolwg syml o'r rhagolygon tywydd a gofynnwch am wirfoddolwyr i nodi beth mae rhai o'r symbolau'n eu cynrychioli. Gofynnwch i'r dosbarth dynnu llun o symbol sy'n cynrychioli'r tywydd ar y diwrnod hwnnw.

**3** Gofynnwch i'r dosbarth dynnu llun o symbol sy'n cynrychioli'r tywydd ar y diwrnod hwnnw. Defnyddiwch gwestiynau i annog y dosbarth i werthuso symbolau tywydd:

- Beth allai wneud y symbolau'n fwy cyffrous neu llawn gwybodaeth?
- A ddefnyddir y symbolau hyn yn y dyfodol? Neu a fydd symbolau newydd?

15 munud

Tasg unigol

Sleid symbolau tywydd

**4** Yna gall pawb ddangos eu symbolau i weddill y dosbarth. Wedyn fel grŵp, archwiliwch y cwestiynau canlynol i gael y dosbarth i werthuso symbolau tywydd:

- A yw un symbol yn gywir ar gyfer delweddu'r holl ddata tywydd am ddiwrnod cyfan? Beth os yw'n heulog yn y bore ond yn bwrw glaw yn y prynhawn?
- Beth allai wneud y symbolau yn fwy cyffrous?
- Sut y gellid defnyddio'r symbolau yn y dyfodol?
- Pa gyfyngiadau sy'n berthnasol i ddefnyddio un symbol?
- Allwch chi feddwl am ffyrdd eraill o gyfathrebu y tu hwnt i ddefnyddio un symbol?





Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gefnogi pobl ifainc i fod yn barod ar gyfer sut bydd y tywydd a newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnyn nhw a'u cymunedau. Dysgwch ragor yma: **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Hawlfraint y Goron 2022, Y Swyddfa Dywydd

# Symbolau tywydd





